**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llŷr Gruffydd MS
Cadeirydd,
Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru
SeneddLJC@senedd.cymru

12 Awst 2024

Annwyl Llŷr,

**Rheoliadau Fframwaith Windsor (Cynllun Symud Nwyddau Manwerthu: Iechyd Planhigion ac Anifeiliaid) 2024.**

Cyfeiriaf at fy llythyr atoch ar 16 Gorffennaf. Hoffwn hysbysu'r Pwyllgor fy mod wedi rhoi fy nghydsyniad i'r Gweinidog Gwladol osod Rheoliadau Fframwaith Windsor (Cynllun Symud Nwyddau Manwerthu: Iechyd Planhigion ac Anifeiliaid) 2024 mewn perthynas â Chymru. Rwyf wedi cyflwyno Datganiad Ysgrifenedig sydd i'w weld yma.

Mae'r Rheoliadau'n croestorri â pholisi datganoledig a byddant yn gymwys i Gymru. Mae'r Rheoliadau'n ymestyn i Gymru, Lloegr a'r Alban. Mae'r Offeryn Statudol yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol a chafodd ei osod gerbron Senedd y DU ar 9 Awst 2024 a daw i rym ar 26 Awst 2024 am Rheoliad 3 a 2 Medi 2024 am unrhyw ddiben arall.

Er mai egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw y dylai'r gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig gael ei gwneud a'i diwygio yng Nghymru, y tro hwn, ystyrir ei bod yn briodol i sylwedd y diwygiadau fod yn gymwys i Gymru. Mae'r Offeryn Statudol yn ymwneud â maes datganoledig. O ystyried y ffaith ei fod yn gymwys i Ogledd Iwerddon, ni fyddai o fewn cymhwysedd Gweinidogion Cymru i wneud yr Offeryn Statudol hwn yn un i Gymru yn unig. Yn ogystal, nid oes gwahaniaeth polisi rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar y mater hwn. Mae hyn yn sicrhau llyfr statud cydlynol a chyson a bydd y rheoliadau ar gael mewn un offeryn. Mae gwneud y rheoliadau yn rhai sy'n berthnasol i Brydain Fawr gyfan hefyd yn sicrhau na fydd perygl o wahaniaeth deddfwriaethol yn y DU a fyddai'n debygol o beryglu parhad gweithrediad Fframwaith Windsor.

Rwyf wedi ysgrifennu yn yr un modd at Mike Hedges MS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Yn gywir

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



**Huw Irranca Davies AS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs